



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad technegol ar y Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2020 drafft

Dyddiad cyhoeddi: 1 Hydref 2020  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 12 Tachwedd 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.  
This document is also available in English.

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn am ddarpariaethau ynghylch ardrethi annomestig ar gyfer eiddo heb ei feddiannu.

**Sut i ymateb**

Gellir anfon ymatebion dros e-bost neu eu hanfon yn uniongyrchol i:

Y Gangen Polisi Ardrethi Annomestig  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
E-bost: [LGF1Consultations@llyw.cymru](mailto:LGF1Consultations@llyw.cymru)

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**Manylion Cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at:  
[LGF1Consultations@llyw.cymru](mailto:LGF1Consultations@llyw.cymru)

Y Gangen Polisi Ardrethi Annomestig  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'r ymateb. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich Hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:  
Y Swyddog Diogelu Data

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
<b>1</b> Cyflwyniad	<b>6</b>
<b>2</b> Mynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig	<b>6</b>
<b>3</b> Strwythur y Ddeddfwriaeth	<b>7</b>
<b>4</b> Y Camau Nesaf	<b>8</b>
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad a Chwestiynau	<b>9</b>

## 1 Cyflwyniad

- 1.1 Ymgynghoriad technegol yw hwn ar Reoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2020 (y Rheoliadau Drafft) sydd ynghlwm yn Atodiad A.
- 1.2 Mae'r Rheoliadau Drafft yn diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi ar Eiddo Gwag a bwriedir iddynt ddod i effaith ar 1 Ebrill 2021.
- 1.3 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn flaenorol ar fwriad y polisi, y rhesymeg a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y newid hwn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn am gymhwysiad deddfwriaethol ac ymarferol y Rheoliadau Drafft. Bydd yr ymgynghoriad ar agor am gyfnod o chwe wythnos a bydd yn dod i ben ar 12 Tachwedd 2020.

## 2 Mynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig

- 2.1 Treth eiddo yw ardrethi annomestig, sy'n codi refeniw ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol a'r heddlu yng Nghymru. Codir ardrethi ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig a mathau eraill o hereditamentau ac mae tua 120,000 o'r rhain i'w cael yng Nghymru. Bob blwyddyn, mae ardrethi annomestig yn codi dros £1 biliwn mewn refeniw hanfodol ar gyfer gwasanaethau lleol fel ysgolion, gofal cymdeithasol, rheoli gwastraff, tai, trafndiaeth a llawer o wasanaethau eraill y mae ein cymunedau'n dibynnu arnynt.
- 2.2 Rydym yn credu y dylai ardrethi annomestig gael eu casglu mor effeithiol a theg â phosibl. Fel rhan o raglen ehangach o ddiwygiadau i'r system gyllid llywodraeth leol, rydym wedi ymrwymo i leihau'r cyfleoedd i bersonau anonest osgoi eu hatebolrwydd i dalu ardrethi annomestig. Ym mis Ebrill 2018 ymgynghorasom ar wahanol ffyrdd o fynd i'r afael â gwahanol ddulliau o osgoi talu ardrethi<sup>1</sup>. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhwng £10m a £20m o refeniw ardrethi annomestig yn cael ei golli bob blwyddyn o ganlyniad i hyn. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig opsiynau i leihau'r achosion o gamddefnyddio Rhyddhad Ardrethi ar Eiddo Gwag, y dull mwyaf cyffredin o osgoi talu yr adroddir yn ei gylch. Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddiwygio'r cynllun o 1 Ebrill 2021<sup>2</sup>.

### Rhyddhad Ardrethi ar Eiddo Gwag

- 2.3 Nid yw perchnogion eiddo annomestig gwag yn atebol i dalu ardrethi am y tri mis cyntaf wedi i eiddo ddod yn wag (y cyfnod rhyddhad cychwynnol). Nod y cyfnod rhyddhad cychwynnol yw rhoi cyfnod o seibiant i berchnogion rhag talu ardrethi wrth iddynt chwilio am feddiannydd newydd neu ddefnydd newydd ar gyfer yr eiddo. Ar ôl diwedd y cyfnod hwn, rhaid i'r perchennog dalu ardrethi

---

<sup>1</sup> Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. 'Mynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig yng Nghymru', 4 Ebrill hyd 27 Mehefin 2018. <https://llyw.cymru/mynd-ir-afael-ag-achosion-o-osgoi-ardrethi-annomestig-yng-nghymru>

<sup>2</sup> Datganiad Ysgrifenedig, 16 Hydref 2018 <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-mynd-ir-afael-thwyll-ac-osgoi-talu-ardrethi-annomestig-yng-nghymru>

llawn am gyfnod amhenodol. Mae hyn er mwyn annog pobl i beidio â chadw eiddo'n wag am resymau anturus. O ran eiddo diwydiannol, chwe mis yw'r cyfnod rhyddhad cychwynnol, oherwydd bod eiddo diwydiannol yn anos i'w osod ar y cyfan a gall gymryd mwy o amser i'w addasu at ddibenion gwahanol.

- 2.4 Fodd bynnag, os yw'r eiddo'n cael ei feddiannu ar unrhyw adeg am gyfnod dros dro o 42 diwrnod neu fwy pan fo ardrethi llawn yn cael eu talu gan y meddiannydd (y rheol 42 diwrnod), caiff trefniadau'r cylch rhyddhad eu hailosod, ac mae'r perchennog yn gymwys i gael cylch arall o dri neu chwe mis o ryddhad. Nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gall perchennog hawlio cylchoedd o ryddhad yn y dyfodol cyn belled â bod y maen prawf meddiannaeth dros dro wedi'i fodloni. Cyflwynwyd y rheol 42 diwrnod yn 2008 i helpu perchnogion sy'n gosod eiddo'n rheolaidd i feddianwyr tymor byr, ee busnesau dros dro a busnesau tymhorol.
- 2.5 Er na chafodd ei chynllunio felly yn wreiddiol, erbyn hyn defnyddir y rheol 42 diwrnod fel y ffordd fwyaf cyffredin o osgoi ardrethi annomestig, a'r ffordd fwyaf cyfarwydd o wneud hynny hefyd, lle cynhelir cyfnodau o 'feddiannaeth' ffug neu a gynllwyniwyd. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi bod o'r farn erioed nad yw hyn yn cyd-fynd ag ysbryd diben bwriadedig y cynllun rhyddhad.
- 2.6 Ymgynghorasom ar nifer o opsiynau i fynd i'r afael â'r math hwn o gamddefnyddio'r system yn 2018 a theimlwyd y byddai ymestyn y cyfnod o 42 diwrnod yn newid digon ar gydbwysedd y cymhellion ariannol i annog pobl i beidio ag osgoi talu. Bydd y newid arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion eiddo brofi bod yr eiddo wedi'i feddiannu am chwe mis (yn hytrach na'r 42 diwrnod presennol) a byddai angen i'r meddiannydd dalu chwe mis o ardrethi llawn cyn dod yn gymwys am gyfnod pellach o ryddhad. Y gobaith yw y bydd hyn yn annog pobl i beidio â gwneud trefniadau meddiannaeth ffug neu a gynllwyniwyd ac y bydd yn llai buddiol yn ariannol i bobl sy'n ceisio elwa ar fantais dreth.
- 2.7 Fel rhan o'n rhaglen ehangach o ddiwygiadau i'r system cyllid llywodraeth leol a threthiant lleol, rydym wedi ymrwmo i wella prosesau gweinyddu treth ac i wella tegwch, gan sicrhau bod ein buddsoddiad ariannol mewn cynlluniau rhyddhad yn cael ei dargedu at y meysydd a fydd yn elwa fwyaf arnynt.

### 3 Strwythur y Ddeddfwriaeth

- 3.1 Mae'r Rheoliadau Drafft yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008. Mae'r darpariaethau'n disodli ym mharagraff 5 o Reoliadau 2008, y geiriad 'chwe wythnos' gyda '26 wythnos', fel bod y ddeddfwriaeth yn darllen fel a ganlyn:

*“Mae hereditament sydd heb ei feddiannu ac a gaiff ei feddiannu ar unrhyw ddiwrnod i'w drin fel petai heb ei feddiannu'n barhaus at ddibenion rheoliad 4(a) a (b) os bydd heb ei feddiannu eto pan ddaw cyfnod o lai na **26 wythnos**, gan ddechrau ar y diwrnod hwnnw, i ben.”*

- 3.2 Effaith ddeddfwriaethol y geiriad diwygiedig hwn yw ymestyn y cyfnod meddiannu dros dro a ganiateir presennol o chwe wythnos i gyfnod o 26 wythnos.

<b>C1</b>	<b>A yw'r geiriad '26 wythnos' a ddefnyddir i ddiffinio'r cyfnod meddiannu dros dro a ganiateir newydd yn rhoi eglurder? Os nac ydyw, sut y gellir ei wella?</b>
<b>C2</b>	<b>A oes unrhyw faterion yn codi o ran cymhwyso'r rheoliadau diwygiedig yn ymarferol?</b>
<b>C3</b>	<b>A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud am y Rheoliadau Drafft?</b>

- 3.3 Mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon hefyd yn cynnwys cwestiynau yn ymwneud â'r Gymraeg.

## **4 Y Camau Nesaf**

- 4.1 Bydd yr ymgynghoriad technegol ar y Rheoliadau Drafft ar agor am gyfnod o chwe wythnos. Wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben, caiff yr ymatebion eu hystyried a bydd unrhyw ddiwygiadau pellach y gall fod eu hangen yn cael eu drafftio.
- 4.2 Yn amodol ar y sylwadau a gyflwynir yn ystod yr ymgynghoriad hwn, bwriedir i'r Rheoliadau Drafft gael eu gosod maes o law a dod i effaith o 1 Ebrill 2021 ymlaen.



## FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Eich enw:	
Sefydliad (os yw'n berthnasol):	
E-bost / Rhif ffôn:	
Eich cyfeiriad:	

### Cwestiynau

<b>1. A yw'r geiriad '26 wythnos' a ddefnyddir i ddiffinio'r cyfnod meddiannu dros dro a ganiateir newydd yn rhoi eglurder? Os nac ydyw, sut y gellir ei wella?</b>
<b>2. A oes unrhyw faterion yn codi o ran cymhwyso'r rheoliadau diwygiedig yn ymarferol?</b>
<b>3. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud am y Rheoliadau Drafft?</b>
<b>4. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Rheoliadau Drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg</b>  <b>Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?</b>

**5. Eglurwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y Rheoliadau Drafft er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o effeithiau positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**6. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bwyntiau pellach yn ymwneud â'r ymgynghoriad hwn nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y blwch hwn i roi gwybod inni.**

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi – ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: